



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University
NHS Trust

Pencadlys Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust Headquarters
2 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Caerdydd/Cardiff
CF15 7QZ
Ffôn/Phone : (029) 20196161
<https://velindre.nhs.wales>

Dyddiad: 29th September 2025
Cyf: CORP 25/26 – 079 (review)

Annwyl xxx,

Cais Rhyddid Gwybodaeth: Gwaith Rheoleiddio a Pholisi Gorfodi Drafft Comisiynydd y Gymraeg (CORP 2025/26 – 079) - Cais am Adolygiad

Ysgrifennaf atoch ynghylch eich cais am Adolygiad o ymateb yr Ymddiriedolaeth i'ch cais oedd yn gofyn am:

- *Gopi o'ch ymateb i'r "Holiadur Canfyddiad Rhanddeiliaid: Gwaith Rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg". Rydym yn deall bod yr arolwg hwn wedi'i gynnal tua mis Ionawr 2024 a bod y Comisiynydd wedi paratoi ffurflen ar-lein i sefydliadau gyflwyno gwybodaeth.*
- *Copi o'ch ymateb i'r ymgynghoriad ar Bolisi Gorfodi Drafft Comisiynydd y Gymraeg a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2024 a mis Ionawr 2025.*

Mae eich cais am adolygiad yn canolbwyntio ar:


Ysgrifennwn atoch i ofyn am adolygiad mewnol o'r ymateb isod.

Nodwn eich bod wedi ymateb i un holiadur ac un ymgynghoriad a oedd â'r potensial, ac sydd wedi yn ôl pob tebyg, dylanwadu ar gyfeiriad polisi cyhoeddus yng Nghymru yn ymwneud â'r mecanwaith sydd ar gael o dan Fesur y Gymraeg 2011 i warantu a gorfodi hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg, a sut y mae'r trefniadau hynny yn gweithredu yn ymarferol. Pryderwn felly nad oes gennych gopi o'ch ymateb/yr ymatebion yn eu cyfanrwydd. Ymddengys i ni fod hyn yn creu problem ymarferol i chi fel corff gan na allwch gyfeirio at eich safbwynt ar fater o bolisi cyhoeddus o bwys, ac yn ogystal nad ydych yn gallu rhannu'r ymateb hwnnw a bod yn atebol am ei gynnwys.

Gofynnwn yn benodol felly i'r adolygiad roi ystyriaeth i'r materion isod.

- 1. Ydych chi'n ystyried eich bod wedi "dal" yr wybodaeth dan sylw at ddibenion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth am ryw gyfnod, ond wrth fethu arbed cofnod ohono, wedi'i ddirinrio, ac os felly beth oedd hyd y cyfnod dan sylw lle'r oedd yr wybodaeth yn eich meddiant?*
- 2. Allwch chi gadarnhau sut y gwnaethoch roi ystyriaeth i'r Cod Ymarfer ar Reoli Cofnodion a ddyroddir o dan adran 46 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a'ch dyletswyddau o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958, wrth ymdrin â'r wybodaeth a oedd dan sylw yn ein cais?*
- 3. Allwch chi gadarnhau a oes gennych bolisi llywodraethu gwybodaeth ac a yw ymatebion i ymgynghoriadau a holiaduron a gynhelir gan sefydliadau allanol yn ddarostyngedig i'r polisi hwnnw, gan gynnwys ymatebion a anfonir drwy ffurflen ar y we neu debyg fel y defnyddiwyd yn yr achos hwn? Os yw'r polisi hwnnw yn ymdrin ag (i) ymatebion i ymgynghoriadau, a (ii) ymatebion a anfonir yn y dull a ddisgrifir, a ddilynwyd gofynion y polisi yn achos eich*

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn hapus i dderbyn gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
Velindre University NHS Trust is happy to receive communication in Welsh or English.





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University
NHS Trust

Pencadlys Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust Headquarters
2 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Caerdydd/Cardiff
CF15 7QZ
Ffôn/Phone : (029) 20196161
<https://velindre.nhs.wales>

ymateb i'r holiadur a/neu ymgynghoriad dan sylw o du Comisiynydd y Gymraeg? Nodwn fod rhai sefydliadau eraill y bu i ni holi am yr un wybodaeth, ac sydd wedi llwyddo i ymateb yn llwyddiannus i'n cais am wybodaeth, wedi cymryd sgrinluniau o'r ffurflen ar y pryd neu wedi cadw testun eu hymatebion a roddwyd yn y ffurflen mewn dull arall.

- 4. A wnewch chi gadarnhau a gafodd fersiynau drafft o'r wybodaeth goll ei chadw ar gyfrifiadur swyddog, ar yriant a rennir, neu unrhyw fan arall ar eich systemau cyfrifiadurol/cadw cofnodion/e-byst, cyn i ymateb terfynol gael ei anfon at Gomisiynydd y Gymraeg? Os felly, a ystyriwyd hyn wrth ymdrin â'n cais gwreiddiol? Ac os ydyw'r wybodaeth hon ar gael ac na wnaethoch ei ryddhau yn eich ymateb cychwynnol, gofynnwn i chi wneud hynny yn awr mewn ymateb i'r adolygiad mewnol hwn.*
- 5. A wnewch chi gadarnhau wrth i chi baratoi eich ymateb cychwynnol i'n cais a wnaethoch chi geisio mynd yn ôl mewn i ffurflen y Comisiynydd er mwyn cyrchu'r wybodaeth dan sylw? Nodwn fod rhai sefydliadau eraill sydd wedi gallu ymateb i'r cais hwn yn llwyddiannus wedi gallu mynd yn ôl mewn i'r ffurflen, a nodwn yn ogystal bod opsiwn arbed ar y ffurflen, yn ôl gwybodaeth mae sefydliadau eraill wedi'i rhannu gyda ni. A wnaethoch chi wneud defnydd o unrhyw opsiwn "arbed" o'r fath ar y pryd? Nododd sefydliad hefyd fod modd iddynt gael at yr wybodaeth drwy fersiwn Saesneg yr holiadur ond nid y fersiwn Gymraeg. Gofynnwn i chi geisio, neu geisio eto os na wnaethoch yn y lle cyntaf, cael at yr wybodaeth dan sylw yn awr a rhyddhau'r wybodaeth os ydych yn llwyddiannus, mewn ymateb i'r adolygiad mewnol hwn.*
- 6. Os yw'r camau yn 4 a 5 uchod yn aflwyddiannus, a wnewch chi gysylltu gyda Chomisiynydd y Gymraeg a mynnu ei bod yn rhyddhau'ch ymateb yn ôl i chi fel y gallwch ymdrin yn gadarnhaol gyda'n cais. Wedi'r cyfan, mae'r wybodaeth dan sylw wedi'i chreu ganddoch chi, yn eiddo i chi, ac roedd yn gwbl wirfoddol i chi ddarparu'r wybodaeth i'r Comisiynydd. Deallwn fod y Comisiynydd o'r farn fod yr wybodaeth dan sylw yn wybodaeth sydd yn syrthio o fewn categori'r gwaharddiad ar y Comisiynydd yn datgelu gwybodaeth mewn ymateb i geisiadau rhyddid gwybodaeth gan drydydd partïon fel ninnau, ond nid ydym yn derbyn y ddadl bod hynny'n ei rhwystro rhag rhyddhau eich gwybodaeth chi yn ôl i chi. Gofynnwn i chi gadarnhau eich bod wedi cymryd y cam hwn, a chynnwys ymateb y Comisiynydd, a gobeithio'r wybodaeth a geisiwyd, fel rhan o'ch ymateb i'r adolygiad mewnol hwn.*


Edrychwn ymlaen at eich ymateb.

Mae eich cais am Adolygiad yn ddarostyngedig i ac wedi'i gwblhau gan yr Ymddiriedolaeth yn unol ag Adran 16 (1 a 2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (*dyletswydd i ddarparu cyngor a chymorth*) y "Ddeddf", ac Adran 5 o [God Ymarfer Rhyddid Gwybodaeth \(a gyhoeddwyd ar 4 Gorffennaf 2018\)](#).

Adolygiad

Fel Swyddog Diogelu Data'r Ymddiriedolaeth, gyda'r cyfrifoldeb am gynnal adolygiadau lle gofynnir

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn hapus i dderbyn gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
Velindre University NHS Trust is happy to receive communication in Welsh or English.



amdanynt, dechreuais yr Adolygiad ar 27 Awst 2025, ac mae bellach wedi'i gwblhau. A gaf i fanteisio ar y cyfle hwn i ymddiheuro am yr oedi cyn ysgrifennu atoch. Y rheswm dros yr oedi yw argaeledd Comisiynydd y Gymraeg ac aelodau o'n tîm Iaith Gymraeg ein hunain yn yr Ymddiriedolaeth yn ystod cyfnod Gwyliau Blynyddol yr haf.

Canfu'r Adolygiad fod eich cais gwreiddiol a'r cais dilynol am Adolygiad yn unol ag [Adran 8](#) o'r Ddeddf (*cais am wybodaeth*). Canfu'r Adolygiad fod yr Ymddiriedolaeth wedi cydymffurfio â'i rhwymedigaethau cyfreithiol statudol gan iddi ddarparu'r wybodaeth i chi ar gyfer eich cais gwreiddiol a'ch cais am adolygiad yn unol ag [Adran 10](#) o'r Ddeddf (*Amser ar gyfer cydymffurfio â'r cais*).

Ystyriodd yr Adolygiad eich cwestiynau, er hwylustod darllen, mae eich cwestiynau mewn **print TRWM** a'r atebion mewn *italig* isod:

- 1. Ydych chi'n ystyried eich bod wedi "dal" yr wybodaeth dan sylw at ddibenion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth am ryw gyfnod, ond wrth fethu arbed cofnod ohono, wedi'i ddinistrio, ac os felly beth oedd hyd y cyfnod dan sylw lle'r oedd yr wybodaeth yn eich meddiant?**

Cyfarfu'r Ymddiriedolaeth â Chomisiynydd y Gymraeg a gofynnodd gwestiynau perthnasol i ganfod a allai fod wedi cael mynediad at y ddogfen. Roedd yn amlwg o ymatebion Comisiynydd y Gymraeg na fyddai'r Ymddiriedolaeth wedi gallu lawrlwytho a chadw mynediad ati. Mae'r Arolwg a'i atebion gan bob corff y cysylltodd ag ef o dan ei gylch gwaith yn cael eu cadw gan Gomisiynydd y Gymraeg.


- 2. Allwch chi gadarnhau sut y gwnaethoch roi ystyriaeth i'r Cod Ymarfer ar Reoli Cofnodion a ddyroddir o dan adran 46 Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a'ch dyletswyddau o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958, wrth ymdrin â'r wybodaeth a oedd dan sylw yn ein cais?**

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Reoli Cofnodion a gyhoeddwyd o dan Adran 46 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Lle nad yw gwybodaeth yn cael ei chadw, nad yw'n cael ei chadw yn yr achos hwn, yna nid yw'r cyfrifoldeb i ddatgelu gwybodaeth gan yr awdurdod cyhoeddus o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn bodoli.

Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus greu cofnodion i'w rhyddhau i geisydd. Dylai unrhyw gais o'r fath am gopi o'r Arolwg gael ei wneud gan y ceisydd i'r Awdurdod Cyhoeddus perthnasol, sef Comisiynydd y Gymraeg yn yr achos hwn.

- 3. Allwch chi gadarnhau a oes gennych bolisi llywodraethu gwybodaeth ac a yw ymatebion i ymgynghoriadau a holiaduron a gynhelir gan sefydliadau allanol yn ddarostyngedig i'r polisi hwnnw, gan gynnwys ymatebion a anfonir drwy ffurflen ar y we neu debyg fel y defnyddiwyd yn yr achos hwn? Os yw'r polisi hwnnw yn ymdrin ag (i) ymatebion i ymgynghoriadau, a (ii) ymatebion a anfonir yn y dull a ddisgrifir, a ddilynwyd gofynion y polisi yn achos eich ymateb i'r holiadur a/neu ymgynghoriad**

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn hapus i dderbyn gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
Velindre University NHS Trust is happy to receive communication in Welsh or English.



dan sylw o du Comisiynydd y Gymraeg? Nodwn fod rhai sefydliadau eraill y bu i ni holi am yr un wybodaeth, ac sydd wedi llwyddo i ymateb yn llwyddiannus i'n cais am wybodaeth, wedi cymryd sgrinluniau o'r ffurflen ar y pryd neu wedi cadw testun eu hymatebion a roddwyd yn y ffurflen mewn dull arall.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Bolisi Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar waith a hefyd Gweithdrefn Weithredu Safonol (SOP) Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer defnydd mewnol. Nid yw'r Polisi a'r SOP yn nodi pob achos a all ddigwydd yn erbyn y gofyniad i gydymffurfio â'r Ddeddf, ond mae'n nodi telerau eang i alluogi cydymffurfiaeth.

Fel rhan o'r dysgu mewnol o'r cais hwn am wybodaeth, ei Hadolygiad Mewnol a'r ffordd fodern y mae Arolygon yn cael eu hanfon at sefydliadau GIG Cymru, lle bo modd yn erbyn cyfyngiadau technegol, bydd yr Ymddiriedolaeth yn diwygio ei Gweithdrefn a'i Pholisi Gweithredu Safonol i gynnwys ystyried lawrlwytho a chadw arolygon ar-lein lle bynnag y bo modd.


4. **A wnewch chi gadarnhau a gafodd fersiynau drafft o'r wybodaeth goll ei chadw ar gyfrifiadur swyddog, ar yriant a rennir, neu unrhyw fan arall ar eich systemau cyfrifiadurol/cadw cofnodion/e-byst, cyn i ymateb terfynol gael ei anfon at Gomisiynydd y Gymraeg? Os felly, a ystyriwyd hyn wrth ymdrin â'n cais gwreiddiol? Ac os ydyw'r wybodaeth hon ar gael ac na wnaethoch ei ryddhau yn eich ymateb cychwynnol, gofynnwn i chi wneud hynny yn awr mewn ymateb i'r adolygiad mewnol hwn.**

Nid oedd unrhyw ddarpariaeth na gallu i gadw fersiwn drafft ar unrhyw yriant caled gan ei fod yn arolwg ar-lein. Felly nid oes copi ar gael i'w rannu gyda'r ceisydd. Cynghorir y ceisydd i gysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r Arolwg a'i gynnwys.

5. **A wnewch chi gadarnhau wrth i chi baratoi eich ymateb cychwynnol i'n cais a wnaethoch chi geisio mynd yn ôl mewn i ffurflen y Comisiynydd er mwyn cyrchu'r wybodaeth dan sylw?**
- **Nodwn fod rhai sefydliadau eraill sydd wedi gallu ymateb i'r cais hwn yn llwyddiannus wedi gallu mynd yn ôl mewn i'r ffurflen, a nodwn yn ogystal bod opsiwn arbed ar y ffurflen, yn ôl gwybodaeth mae sefydliadau eraill wedi'i rhannu gyda ni.**
 - **A wnaethoch chi wneud defnydd o unrhyw opsiwn "arbed" o'r fath ar y pryd? Nododd sefydliad hefyd fod modd iddynt gael at yr wybodaeth drwy fersiwn Saesneg yr holiadur ond nid y fersiwn Gymraeg.**
 - **Gofynnwn i chi geisio, neu geisio eto os na wnaethoch yn y lle cyntaf, cael at yr wybodaeth dan sylw yn awr a rhyddhau'r wybodaeth os ydych yn llwyddiannus, mewn ymateb i'r adolygiad mewnol hwn.**

Cyfarfu'r Adolygydd â'r Swyddog Ymddiriedolaeth dan sylw ac maent wedi cadarnhau nad oedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu cadw'r wybodaeth ar adeg cwblhau'r Arolwg nac ar ôl ei gyflwyno.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn hapus i dderbyn gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
Velindre University NHS Trust is happy to receive communication in Welsh or English.



Dim ond gwybodaeth sydd ganddo eisoes y mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cyhoeddus ddarparu i geiswyr. Mewn achosion o'r fath, mae pob achos o ryddhau gwybodaeth yn amodol ar asesiad o fudd y cyhoedd, oni bai y byddai eithriad cymwys yn absoliwt, ac yn yr achos hwnnw nid oes angen prawf cydbwysu.

Nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Cyhoeddus greu na gofyn am wybodaeth er mwyn iddi gael ei rhannu â cheisydd. Am y rheswm hwn ni fydd yr Ymddiriedolaeth yn ymgymryd â gweithgaredd pellach i sicrhau bod gwybodaeth nad yw ganddi'n wreiddiol ar gael.

- 6. Os yw'r camau yn 4 a 5 uchod yn aflwyddiannus, a wnewch chi gysylltu gyda Chomisiynydd y Gymraeg a mynnu ei bod yn rhyddhau'ch ymateb yn ôl i chi fel y gallwch ymdrin yn gadarnhaol gyda'n cais. Wedi'r cyfan, mae'r wybodaeth dan sylw wedi'i chreu ganddoch chi, yn eiddo i chi, ac roedd yn gwbl wirfoddol i chi ddarparu'r wybodaeth i'r Comisiynydd. Deallwn fod y Comisiynydd o'r farn fod yr wybodaeth dan sylw yn wybodaeth sydd yn syrthio o fewn categori'r gwaharddiad ar y Comisiynydd yn datgelu gwybodaeth mewn ymateb i geisiadau rhyddid gwybodaeth gan drydydd partïon fel ninnau, ond nid ydym yn derbyn y ddadl bod hynny'n ei rhwystro rhag rhyddhau eich gwybodaeth chi yn ôl i chi. Gofynnwn i chi gadarnhau eich bod wedi cymryd y cam hwn, a chynnwys ymateb y Comisiynydd, a gobeithio'r wybodaeth a geisiwyd, fel rhan o'ch ymateb i'r adolygiad mewnol hwn.**


Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio'n llawn â'i rhwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan Adran 45 o'r Ddeddf. Nid yw'n ofynnol iddo ofyn am wybodaeth na chreu gwybodaeth er mwyn iddo gydymffurfio â chais am wybodaeth o dan y Ddeddf.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried bod yr Adolygiad wedi'i gwblhau. Noder, yn unol ag [Adran 50](#) o'r Ddeddf, bod gennych hawl statudol i wneud cwyn i'r Rheoleiddiwr os ydych yn anfodlon â chanlyniad yr Adolygiad.

Mae manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
Yr Ail Lawr
Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH
Ffôn: 0330 414 6421
e-bost: wales@ico.org.uk

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn hapus i dderbyn gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
Velindre University NHS Trust is happy to receive communication in Welsh or English.





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University
NHS Trust

Pencadlys Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust Headquarters
2 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Caerdydd/Cardiff
CF15 7QZ
Ffôn/Phone : (029) 20196161
<https://velindre.nhs.wales>

Yn gywir,

Ian Bevan

Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth a Swyddog Diogelu Data

Velindre University NHS Trust

2 Charnwood Court

Heol Billingsley

Parc Nantgarw

Cardiff

CF15 7QZ

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn hapus i dderbyn gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
Velindre University NHS Trust is happy to receive communication in Welsh or English.

